

'mwynder trist' R. Williams Parry yn disgrifio'r cerddi i'r dim?

Mewn rhaglen deledu rai blynyddoedd yn ôl cyfeiriodd yr Athro Geraint Gruffydd at John Glyn Davies fel y gorau a wyddai amdano am osod geiriau addas i gerddoriaeth. I gadarnhau'r gosodiad hwn, nid oes angen i chi ond edrych ar y geiriau yn ei dair cyfrol o ganeuon.

\* \* \* \*

GADEWCH i ni edrych ar John Glyn Davies y cerddor a'r gosodwr geiriau dihafal. Mewn rhagymadrodd i *Cerddi Huw Puw* 'A Note on Welsh Songcraft', cawn feirniadaeth bur lem ganddo ar 'The nauseous Celtic Scholar'.

Cwyno yr oedd am y dirywiad mewn canu ysgafn canadwy a phoblogaidd yng Nghymru ymysg y werin, ac fel yr oedd cerddorion blaenllaw fel Owen Alaw a Brinley Richards yn trefnu a chyfansoddi alawon ar gyfer llwyfan y cyngerdd, gyda'i ffurfioldeb artiffisial.

Iddo ef 'artless melodies' oedd llawer o'n caneuon gwerin. 'The Folk Song Revival . . . has had a curious effect upon patriotic musicians, who find in folk songs the expression of that elusive phantom, The Soul of the Nation . . .' Yn anffodus nid yw gofod yn caniatáu i mi fanylu ar y feirniadaeth hon, ond y mae'n graff, gwybodys ac ysgolheigaidd ei chynnwys.

Cynnyrch ei ddaliadau beirniadol yw'r gyfrol *Cerddi Huw Puw* a gyhoeddwyd yn 1923. Teimlai nad oedd yng Nghymru gerddi a chaneuon addas ar gyfer plant; ac yr oedd llawer o wirionedd yn y gosodiad.

Yr oedd ganddo ddawn arbennig i gyfansoddi geiriau addas i gerddoriaeth ganadwy, a oedd yn dderbyniol i blant. 'Children know better than either song writer or teacher what is not good for them. But the would-be Welsh writer for children writes down to them under the delusion that a child is the greater simpleton of the two . . .' Dyma oedd ei farn.

Sylwch ar y geiriau a ddefnyddir ganddo yn ei ganeuon, bron yn ddieithriad y mae ynddyn nhw le i ddychymyg plentyn, yn gyffrous a heb fod yn blentynnaidd.

Yn *Cerddi Robin Goch*, daw'r gerddoriaeth o Lychlyn, ond y mae'n ganadwy gyda rhythmau gafaalgar, y math o gerddoriaeth a'ch gorfoda i'w chwibanu wrth gerdded neu wrth eich gwaith. Mae'r gerddoriaeth hefyd yn syml ei hadeiladwaith; nid yw'r cyfngau yn gymhleth gyda bylchau anodd rhwng nodyn a nodyn, ond yn hytrach yn datblygu'n swynol a syml o ris i ris.

Sylwch hefyd fel y dewisodd

ganeuon a geiriau sy'n addas i blant o bob oed. Gallai caneuon fel 'Gwen a Mair ac Elin' apelio at y plant lleiaf, a'r caneuon môr a'r *shanties* at yr hynaf. Beth apeliai'n fwy at fechgyn yn eu harddegau na rhamant y môr? Onid yw *Ynys* y *Trysor* yn un o'r llyfrau mwyaf poblogaidd a gyhoeddwyd erioed?

\* \* \* \*

YN *Cerddi Huw Puw* a *Cerddi Portdinllaen* cawn gasgliad o ganeuon môr a *shanties* a glywodd J. Glyn Davies yn Llŷn a dociau Lerpwl, ac yn arbennig gan ei frawd, Capt. Frank Davies. Cyfansoddodd eiriau Cymraeg ar eu cyfer a ffitiai'r gerddoriaeth fel maneg, ond yn fwy na hynny, llwyddodd yn anghyffredin i briodi cynnwys y geiriau â naws y gerddoriaeth — a dyma olygai yr Athro Geraint Gruffydd rwy'n siwr, pan gyfeiriodd at ei fedrusrwydd yn gosod geiriau i gerddoriaeth.

Yr oedd y môr yn ei waed, a threuliai gymaint o amser ag y gallai yn hwylio o gwmpas arfordir Llŷn a rhannau eraill o'r byd, ond ni ddibynnai ar forwriaeth am ei gynhaliath, ac fel y cyfaddefodd yn ddiweddarach wrth ei wraig, dim ond gŵr fel ef, na ddibynnai ar y môr am ei gynhaliath, allai ysgrifennu geiriau rhamantaidd o'r fath.

Y mae'r ddwy gyfrol yn cynnwys rhai o ganeuon môr a *shanties* mwyaf poblogaidd y cyfnod. Caneuon i'w canu gan forwyr yn eu hamser hamdden oedd y caneuon môr, ond caneuon gwaith oedd y *shanties*, gyda'u rhythm arbennig ar gyfer troi capstan, codi hwyl, tynnu rhaff, codi angor, a.y.b.

Nid oes sicrwydd ynghŷn â tharddiad y gair *shanty*, ac nid yw gofod yn caniatáu i mi fanylu, ond cred rhai mai ffurf ar y gair 'chant' ydyw, ac eraill, bod y tarddiad yn gysylltiedig ag India'r Gorrlewin neu Dde America. Cred y Ffrancwyr mai ffurf ar y gair 'chantier' ydyw. Pwy a wŷr? Beth bynnag fyddo'r eglurhad, yr oedd y *shanties* hyn yn rhan hanfodol o fywyd morwyr y 18fed a'r 19eg ganrif.

Dylem ddiolch hefyd i Miss Jennie Thomas a'r prifathro J. J. Williams am ysgogi J. Glyn Davies i gyhoeddi ei ganeuon ar gyfer plant ysgol Cefnfaes, Bethesda, ac yn ddiweddarach ar gyfer plant Cymru benbaladr. Gobeithio y caiff y cyhoeddiad diweddaraf dderbyniad gwresog yn ein hysgolion.

Peidiwch â gadael i ni anghofio mai Llŷn oedd y symbyliad y tu ôl i'w farddoniaeth a'i ganeuon. Dyma un o'i englynion sy'n dangos mor ddwfn y treiddiasai Llŷn i'w gorff a'i enaid:

*Haulwen ar hyd y glennysdd, — a haul heusr  
A'i llyw ar y mynydd,  
Felly Llyn ar deryn dydd,  
Lle i enaid gael llonydd.*

# Meini Llŷn yn y Seler yn Lloegr

## IOAN MAI EVANS am eu cael yn ôl

CHWEDL EI daid a barodd i Gareth Williams, o Borth Neigwl, Llŷn, fynd i Rydychen i weld meini cerrig go anghyffredin.

Mae cychwyn y stori yn nhri degau'r ganrif ddiwethaf, pan ddaeth dwy garreg fedd i'r golwg wrth chwalu clawdd terfyn ar gae Tir Gwyn ym mhlwyf Llannor yn Llŷn. Mae yna gyfrif am y darganfyddiad hwnnw a sylw fod yn y bedd, esgryn dyn tal iawn, ond ei fod yn wynebu'r De yn hytrach na'r Dwyrain, a oedd yn awgrymu mai bedd pagan ydoedd.

Gadawyd popeth fel ag yr oedd hyd nes i rywrai fynd i chwalu hen fwthyn Beudy'r Mynydd, a oedd gerllaw'r fangre, a hynny ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach. Caed ail olwg ar y darganfyddiad a gweld fod y sawl a gladdwyd yno dros saith troedfedd o daldra, a'r funud y daeth y sgerbwdd i afael yr aer, aeth yn llwch yn y fan.

Roedd hyn tua 1876, pan ddaeth Syr John Rhys yno i archwilio'r meini. Ail gladdu eto, ac yno y buont am ugain mlynedd arall.


Mesurai un o'r cerrig dros bum troedfedd ac arni'r arysgrif Lladin VENDESETLI wedi ei dorri ar i lawr. Hwn, yn ôl yr ysgolheigion, yn dynodi 'Ef o'r bywyd gwynfydedig' ac yn ffurf o'r chweched ganrif ar yr enw GWYNHOEDL a geir yn Llangwinnadl. Ar hytraws carreg arall ac yn dyddio o'r un cyfnod roedd IOVENALI(S) FILI ETERNI HIC IACIT . . . carreg *Iovenalis*, fab *Eternus*. Mae'n gorwedd yma.

\* \* \* \*

I DDOD yn nes adref, a gadael y mil a phedwar cant o flynyddoedd yn niwloedd y Gristnogaeth gynnar, beth am weld ble mae Gareth Williams, gyfoes, yn cydio yn y stori.

Ei daid, a thad yr adroddwraig Neli'r Hendre, oedd Owen Evans, a oedd yn llefnyn pymtheg oed yn 1895 pan ddaeth ymwelydd eto i Tir Gwyn, a threfnu i fynd i'r afael â'r cerrig unwaith yn rhagor. Ond y tro yna i'w rhoi nhw mewn cistiau coed, a threfnu i'r llefnyn i'w cartio nhw efo'r drol am stesion Pwllheli. Felly fu. Ond mi gofiodd taid y dreisiwn oedd ar y labal . . . Ashmolean Museum, Oxford. Ac fe ail-adroddwyd y 'dreisiwn' (sef y cyfeiriad) mor aml yng nghlyw Gareth Williams yr ŵyr bach, nes i hwnnw, wedi tyfu'n ddyn fynd, ugain mlynedd yn ddiweddarach, bob cam i Rydychen i weld y meini.

Ond pan gafodd achos i alw



eto ymhen un mlynedd ar ddeg, 'doedd dim golwg o'r cerrig. Oherwydd rhaglen ad-drefnu o fewn yr amgueddfa enfawr hon, a diffyg lle, bu raid rhoi'r cerrig yn y seler o'r golwg.

Mae hyn yn naturiol wedi corddi Gareth ers dwy flynedd bellach. Ond er tegwch, mae'n brysis i egluro fod is-geidwad y lle'n teimlo'n union 'run fath — gŵr, gyda llaw, a fu'n astudio ym Mhrifysgol Bangor. Yntau o'r farn mai yng Ngogledd Cymru mae lle'r cerrig coffa.

Erbyn hyn mae Gareth yn gofyn pam mynd â nhw i estron dir yn y lle cynta, ac mae'n holi 'run pryd am gartre parhaol iddynt. Ac er iddo wneud hynny'n gyhoeddus, ddaeth dim ymateb o unman.

Hyd y gwelaf, rhan bwysig o dreftadaeth Llŷn ydyw'r darganfyddiad o'i gychwyn ar gae Cerrig Mawr Owen Evans, a'i dad o'i faen. Ac onid yw'r awdurdodau cydnabyddedig am ddweud dim, yna beth am yr amgueddfa fechan sy'n tyfu yn Nefyn, hen dref cwmwd Dinllaen, a chynefin sawl heneb a aeth ar goll nid 'yn llwch yr amser gynt', ond mewn seler neu mewn sêl.